CYFLWYNWYD YM MWRDD LLYWODRAETHWYR MET CAERDYDD 9 GORFFENNAF 2021

**Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

**Datganiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil: 2020/21**

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi'r lefelau uchaf o onestrwydd ymchwil a llywodraethu yn ei holl weithgarwch ymchwil. Fel un sy'n derbyn cyllid cyhoeddus, mae Met Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ei staff a'i fyfyrwyr yn cynnal safonau rhagorol o ran ymarfer academaidd, uniondeb a gonestrwydd ym mhob agwedd ar ymchwil.

1.2 Fel llofnodwr i'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i gynnal yr ymrwymiadau sydd ynddo. Er mwyn gwella atebolrwydd a rhoi sicrwydd bod mesurau yn cael eu cynnal i gefnogi safonau uchel o onestrwydd ymchwil, mae'r Concordat yn argymell bod cyflogwyr ymchwilwyr yn cyflwyno datganiad blynyddol byr i'w corff llywodraethu eu hunain sy'n:

- Yn rhoi crynodeb o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a wnaed i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth a chymhwyso materion uniondeb ymchwil.
- Yn rhoi sicrwydd bod y prosesau sydd ganddynt ar waith ar gyfer delio â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn gadarn, yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad
- Yn darparu datganiad lefel uchel ar unrhyw ymchwiliadau ffurfiol o gamymddwyn ymchwil sydd wedi cael eu cynnal.

1.3 Dyma bedwerydd datganiad blynyddol y Brifysgol ar Uniondeb Ymchwil ac mae'n ymwneud â blwyddyn academaidd 2020/21. Mae gwybodaeth fanwl am ddull cyffredinol y Brifysgol o ymdrin ag uniondeb ymchwil a chamymddwyn ymchwil wedi'i chynnwys yn Natganiad Blynyddol cyntaf y Brifysgol a gyhoeddwyd yn 2018 ac sydd ar gael ar wefan Met Caerdydd[1].

1.4 Fel yr argymhellwyd gan y Concordat, bydd y datganiad hwn ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol.

## 2. Crynodeb o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a wnaed i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth a chymhwyso materion uniondeb ymchwil

2.1 Mae gonestrwydd ymchwil wedi parhau i fod yn ganolbwynt allweddol i'r Brifysgol ym mlwyddyn academaidd 2020/21. Y gweithgareddau penodol sydd wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn yw:

- Gwnaed gwaith pellach yn ymwneud ag arferion storio data (yn dilyn yr adolygiad mawr a nodwyd mewn datganiadau blynyddol blaenorol). Arweiniodd hyn at weithredu Ffurflen Gais Moeseg wedi'i diweddaru yn gynnar yn y Flwyddyn Academaidd.

---

1 http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Documents/Research%20Integrity/Annual_statement_on_research_integrity_June18.pdf

- Mae darn mawr o waith wedi'i wneud i ddatblygu a gweithredu modiwl hyfforddi moeseg ar-lein. Dan arweiniad cydweithwyr yn yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu a Datblygu Sefydliadol, mae aelodau UEC wedi cynghori ar gynnwys ac wedi darparu enghreifftiau “bywyd go iawn” i'w defnyddio yn y modiwl. Disgwylir i'r modiwl gael ei lansio cyn diwedd Blwyddyn Academaidd 2020/21.
- Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith fawr ar y ffordd y mae llawer o brosiectau ymchwil yn cael eu cynllunio. Mae newid mawr wedi bod mewn cynnydd yn y swm o ymchwil a gynhelir ar-lein, sydd â goblygiadau o ran sut mae caniatâd gwybodus yn cael ei ennill gan gyfranogwyr. Felly datblygwyd set o ganllawiau i ymchwilwyr eu dilyn wrth gynnal ymchwil ar-lein.
- Cytunwyd ar fân ddiwygiadau i *Bolisi'r Brifysgol ar Waith sy'n Cynnwys Anifeiliaid neu Ddeunydd Anifeiliaid* a bydd fersiwn newydd o'r polisi yn cael ei lansio cyn diwedd y Flwyddyn Academaidd gyfredol.

## 3. Prosesau sydd ar waith ar gyfer delio â honiadau o gamymddwyn

3.1 Adolygwyd Polisi'r Brifysgol ar Gamymddwyn Ymchwil yn 2018/19 a gwelwyd ei fod yn addas at y diben. Bydd y Polisi nesaf yn cael ei adolygu yn hanner cyntaf blwyddyn academaidd 2021/22.

## 4. Datganiad ar unrhyw ymchwiliad ffurfiol i gamymddwyn ymchwil sydd wedi cael ei gynnal

4.1 Ni chafwyd unrhyw honiadau o dan Weithdrefn Camymddwyn Ymchwil y Brifysgol yn ystod 2020/21.